TGAU

wjec cbac

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 2 Opsiwn 2.6

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ... 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ... 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ... 1
Strwythur y cymhwyster ... 2
Asesu ... 3
Crynodeb o'r Asesu Uned 2 ... 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 2 ... 3
Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.6 ... 4
Cynllun dysgu ar gyfer Opsiwn 2.6 ... 5
Profiadau Dysgu ... 20
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 21
Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.6 ... 28

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnwyd am y tro cyntaf yn Haf 2028. | 1 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU  Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu Uned 2

**Uned 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
***Asesiad di-arholiad ar sgrin:* 3 awr**
**20% o'r cymhwyster**

**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**Yr Oesoedd Canol**

**2.1** Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol

**2.2** Y Pla Du tua 1330–tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yr oesoedd canol

**Modern Cynnar**

**2.3** Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492–tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd fodern gynnar

**2.4** Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar

**Modern**

**2.5** Y Drydedd Reich, tua 1933–tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern

**2.6** Afghanistan tua 1979–tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Ar gyfer yr asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol.

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 2

| | | |
|---|---|---|
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 5% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan gyfuno’r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 5% |
| AA4 | Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol. | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.6

**Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
(20% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 2 yw darparu dealltwriaeth fanwl o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd drwy astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd. Yna byddant yn cynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar eu dewis o destun hanesyddol.

Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.

Dylai dysgwyr hefyd allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:

- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

Dylai dysgwyr allu dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i gynnal ymholiadau hanesyddol, gan gynnwys:

- cael trosolwg o destun penodol
- casglu tystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth o'r hanes a'r dadleuon cysylltiedig
- crynhoi'r pwyntiau a'r dadleuon allweddol
- adolygu gwybodaeth a ffurfio rhagdybiaeth sy'n gysylltiedig â chwestiwn penodol
- dewis, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth
- cynllunio a llunio ymateb i gwestiwn penodol
- datblygu hunanwerthusiad beirniadol o'u perfformiad yn y dasg.

| **Cyfnod amser** | **Opsiwn** | |
|---|---|---|
| Modern | 2.6 | Afghanistan, tua 1979–tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd |
| | 2.6.1 | Y Sofietiaid yn goresgyn Afghanistan 1979–1989 |
| | 2.6.2 | Canlyniadau diwedd y rhyfel |
| | 2.6.3 | Esgyniad Al-Qaeda |
| | 2.6.4 | Al-Qaeda yn targedu UDA fel canolbwynt grym y Gorllewin |
| | 2.6.5 | Y "Rhyfel Byd-eang ar Derfysgaeth”. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun dysgu ar gyfer Opsiwn 2.6
## Modern: Afghanistan, tua 1979–tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

**2.6** Cefndir: Afghanistan, ei chysylltiadau â'r Gorllewin a goblygiadau'r cysylltiadau hynny i'r rhanbarth.
(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**).

| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
|---|---|---|---|---|
| • pwysigrwydd daearyddol, hanesyddol a strategol Afghanistan ers diwedd y 19eg ganrif a'i chysylltiadau â'r Gorllewin. | Lleoliad Afghanistan ar groesffordd Canolbarth Asia, ei rôl yn y 'Gêm Fawr' rhwng Ymerodraethau Prydain a Rwsia, a'i phwysigrwydd strategol datblygol drwy'r Rhyfel Oer. Ymysg y pwyntiau allweddol mae'r gydberthynas ag India Prydain, sefydlu Afghanistan fel gwladwriaeth glustogi, a'i pherthnasedd i fuddiannau UDA a'r | **Gweithgaredd:**<br>Ymarferion mapio i dynnu sylw at arwyddocâd daearyddol Afghanistan.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd Afghanistan yng nghyd-destun y Rhyfel Oer, ac ideoleg groes UDA a'r Undeb Sofietaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadansoddi ffynonellau sylfaenol ar yr elyniaeth rhwng Prydain a Rwsia a'i chymharu â dynameg y Rhyfel Oer. | **Map(iau):**<br>Afghanistan<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Great Game - Ohio State University<br><br>**Fideo(s):**<br>Secrets and Spies: A Nuclear Game | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sofietiaid yn ystod y Rhyfel Oer. | **Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn ymwneud â chanfyddiadau o Afghanistan a sut mae ei hadnoddau yn cael eu hystyried fel asedau. | | |
| • y newid yn y sefyllfa yn yr 1970au gyda dymchweliad brenhiniaeth Zahir Shah yn 1973 a llywodraeth yr Arlywydd Daoud Khan yn 1978, pryderon cynyddol ymysg y Sofietiaid am weithredoedd Unol Daleithiau America yn Afghanistan ac ideolegau'n gwrthdaro ar y llwyfan rhyngwladol. | Trosolwg o'r *coup* wnaeth arwain at reolaeth Daoud Khan a'r trosfeddiannu comiwnyddol dilynol yn 1978.<br><br>Pryder y Sofietiaid ynghylch colli dylanwad a bygythiad canfyddedig gwrthwynebiad wedi'i gefnogi gan UDA. | **Gweithgaredd:**<br>Gweithgaredd llinell amser ar newidiadau i gyfundrefn Afghanistan.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall y trawsnewidiad i wladwriaeth Sofietaidd ac yn ystyried sut newidiodd hyn y berthynas ag UDA.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl ar arwyddocâd niwtraliaeth Afghanistan yn erbyn ofnau Sofietaidd o ymledaeth UDA.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn parhau i gysylltu pryderon tebyg i'r rhain i ofnau'r Gorllewin ynghylch y Llen Haearn a pharanoia o'r Dwyrain. | **Fideo(s):**<br>Lluniau o Afghanistan yn yr 1970au<br><br>The complex history of Afghanistan | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="5">2.6.1 Y Sofietiaid yn goresgyn Afghanistan 1979–1989</th></tr>
<tr><th>Dylai dysgwyr ddeall:</th><th>Gwybodaeth</th><th>Gweithgareddau a Chanlyniadau</th><th>Adnoddau</th><th>Amser a awgrymir (oriau)</th></tr>
<tr><td><ul><li>y goresgyniad o safbwynt y Sofietiaid yn erbyn safbwynt y Mujahideen, gan gynnwys:<ul><li>cefnogaeth yr Undeb Sofietaidd i Athrawiaeth Brezhnev, 1968 i gefnogi cyfundrefnau Comiwnyddol dan fygythiad</li><li>credoau crefyddol a diwylliannol y Mujahideen, eu barn ynglŷn â'r Sofietiaid a'r gefnogaeth filwrol a roddwyd iddynt gan yr Unol Daleithiau.</li></ul></li></ul></td><td>Cyfiawnhad y Sofietiaid o'r goresgyniad, gan gynnwys Athrawiaeth Brezhnev a'r nod i gefnogi cyfundrefn gomiwnyddol.<br><br>Ysgogiad crefyddol a chenedlaetholgar Mujahideen i wrthsefyll meddiannaeth Sofietaidd, gyda phwyslais ar gredoau Islamaidd a theyrngarwch llwythol.</td><td>Gweithgareddau:<br>Gweithgaredd chwarae rôl yn efelychu sgyrsiau heddwch rhwng cynrychiolwyr UGSS, Mujahideen ac UDA.<br><br>Dadansoddiad o ffynhonnell sylfaenol o bropaganda Sofietaidd a Mujahideen.<br><br>Canlyniad:<br>Gall dysgwyr fynd i'r afael â'r newid o Khrushchev i Brezhnev, a sut mae hyn yn effeithio ar gysylltiadau ag Afghanistan. Gellir ystyried ofnau ynghylch Ffwndamentaliaeth.<br><br>Gweithgaredd uwch:<br>Cymharwch yr ofnau hyn ynghylch Ffwndamentaliaeth Islamaidd â safbwyntiau yn yr 21ain ganrif.<br><br>Canlyniad uwch:<br>Bydd dysgwyr yn dechrau deall pryderon ynghylch Ffwndamentaliaeth.</td><td>Gwefan(nau):<br>Brezhnev Doctrine: Speech by First Secretary of the Soviet Union Leonid Brezhnev<br><br>Afghanistan, Code of Conduct for the Mujahideen<br><br>Fideo(s):<br>Soviet Invasion Explained</td><td>2 awr</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • o Ryfel Cartref i Ryfel Dirprwyol, gan gynnwys:<br>• diwedd détente a SALT II ac effaith hynny ar y berthynas ag Afghanistan<br>• Strategaethau Sofietaidd (brawychu, tanseilio, cudd-wybodaeth, chwilio a dinistrio) o'u cymharu â thactegau'r Mujahideen (tactegau gerila a chefnogaeth yr Unol Daleithiau drwy daflegrau gwrthawyrennol). | Effaith diwedd détente ar y Rhyfel Oer.<br><br>Strategaethau milwrol y Sofietiaid yn erbyn Mujahideen: defnydd y Sofietiaid o wrthchwyldroadaeth rhyfel gerila yn erbyn tactegau Mujahideen gyda thaflegrau Stinger UDA. | **Gweithgareddau:**<br>Trafodaethau grŵp ar sut aeth Afghanistan yn faes y gad yn y Rhyfel Oer.<br><br>Tasg ymchwil i gymharu strategaethau Sofietaidd â chefnogaeth UDA o Mujahideen (e.e. Ymgyrch Cyclone).<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall bod y Mujahideen yn brofiadol oherwydd eu gwybodaeth am y tir. Dylid ystyried y manteision oedd gan y Sofietiaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch dactegau'r Sofietiaid ac Afghanistan yn erbyn y tactegau gerila a wynebodd UDA yn Fietnam ar ffurf traethawd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried manteision ac anfanteision y tactegau a ddefnyddiwyd gan y ddwy ochr. | **Erthygl(au):**<br>Articles on guerrilla warfare tactics.<br><br>Cold Conflict - The National WWII Museum<br><br>**Fideo(s):**<br>Operation Magistral, Afghanistan (1987/88) | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.6.2 Canlyniadau diwedd y rhyfel | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y rhesymau dros dynnu milwyr Sofietaidd yn ôl yn 1989 ac arwyddocâd hynny, gan gynnwys:<br>  • cyfraddau anafiadau a marwolaethau, colledion ariannol a materion cysylltiadau cyhoeddus yn yr Undeb Sofietaidd ac Afghanistan<br>  • how far it contributed to the downfall of the Soviet Union in 1991. | Straen economaidd Sofietaidd, gwrthwynebiad y cyhoedd i'r rhyfel a chyfraddau marwolaethau uchel.<br><br>Yr effaith ar gwymp yr Undeb Sofietaidd a dechrau rhyfel cartref yn Afghanistan. | **Gweithgareddau:**<br>• cyflwynwch ddadl ar resymau'r Sofietiaid dros dynnu'n ôl<br>• lluniwch ddadansoddiad cymharol o benderfyniad y Sofietiaid i dynnu'n ôl o Afghanistan a phenderfyniad UDA i dynnu'n ôl o Fietnam.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ystyried pam yr oedd hyn yn wrthdaro na ellid ei ennill.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch bapur briffio ar sut dylai'r Sofietiaid fod wedi mynd i'r afael â'r gwrthdaro.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried beth fyddai wedi gorfod digwydd yn wahanol i'r Sofietiaid fod yn fuddugol. | **Erthygl(au):**<br>Collapse (of the USSR) - BBC<br><br>Soviet-Afghan War (1979-1989): Statistics<br><br>The Soviet Experience in Afghanistan: Russian Documents and Memoirs | 2 awr |
| • y cysylltiadau rhwng diwedd y rhyfel ac ansefydlogrwydd cynyddol, gan gynnwys:<br>  • ffoaduriaid yn ffoi, a materion hawliau sifil a dynol, yn ymwneud â menywod yn arbennig | Diffyg pŵer ar ôl y rhyfel, esgyniad y Taliban a rôl Afghanistan mewn ansefydlogrwydd rhanbarthol yn arwain at ymosodiadau 9/11. | **Gweithgareddau:**<br>Project ymchwil: Sut arweiniodd penderfyniad y Sofietiaid i dynnu'n ôl at esgyniad y Taliban.<br><br>**Canlyniad:** | **Fideo(s):**<br>A history of the Taliban<br><br>Eyewitness to 9/11: Behind the Lens<br><br>**Erthygl(au):** | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y sefyllfa wleidyddol yn dwysáu a chamau gweithredu UDA yn y Dwyrain Canol. | | Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau tynnu'n ôl, a'r camau nesaf yn dilyn y gwrthdaro hwn.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn gwneud cyflwyniad ar y berthynas rhwng UDA ac Afghanistan ar ôl 1990.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried dynameg y gydberthynas rhwng UDA ac Afghanistan wrth i'r Sofietiaid gyrraedd cyfnod o anweithgarwch. | The Soviet invasion of Afghanistan: the past’s resemblance to the present | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## 2.6.3 Esgyniad Al-Qaeda

| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
|---|---|---|---|---|
| • trefniadaeth Al-Qaeda o 1988 ymlaen, gan gynnwys:<br>• cefnogaeth i Al-Qaeda o fewn a thu hwnt i Afghanistan<br>• Cynghrair y Gogledd yn ystod rheolaeth pum mlynedd y Taliban dros Afghanistan, 1996–2001. | Deall sut cafodd Al-Qaeda ei sefydlu o dan Osama bin Laden yn 1988, gan ganolbwyntio ar y gefnogaeth iddo o fewn Afghanistan a thu hwnt.<br><br>Dysgu am esgyniad y Taliban i bŵer a'r rhwydwaith cefnogaeth rhwng Al-Qaeda a grwpiau jihadaidd eraill. | **Gweithgareddau:**<br>Lluniwch linell amser yn nodi digwyddiadau allweddol yn esgyniad Al-Qaeda a'i weithgareddau rhwng 1988 a 2001.<br><br>Dadansoddwch areithiau neu ddogfennau gan Osama bin Laden yn nodi ei resymau dros sefydlu Al-Qaeda.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses o sefydlu Al-Qaeda yn 1988.<br><br>Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod am y rhwydwaith o gefnogaeth i Al-Qaeda o fewn Afghanistan (Mujahideen) ac yn rhyngwladol.<br><br>Gall dysgwyr ystyried rôl Cynghrair y Gogledd yn y gwrthwynebiad i'r Taliban a sut dylanwadodd hyn ar ddatblygiad Al-Qaeda.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Cymharwch y broses o sefydlu Al-Qaeda â datblygiad mudiadau jihadaidd eraill ar y pryd (e.e. Jihad Islamaidd).<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Fideo(s):**<br>Who are the Al-Qaeda? | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gall dysgwyr ymchwilio i'r modd y lluniodd Al-Qaeda gysylltiadau â grwpiau jihadaidd byd-eang y tu allan i Afghanistan, fel y rhai yn Swdan a Phacistan. | | |
| • rôl Osama Bin Laden gan gynnwys:<br>  • ei gefnogaeth i'r Mujahideen<br>  • symud i Afghanistan yn 1996. | Deall rôl bin Laden yn cefnogi'r Mujahideen yn ystod y rhyfel rhwng y Sofietiaid ac Afghanistan a'r ffaith iddo symud i Afghanistan yn 1996 er mwyn atgyfnerthu canolfan Al-Qaeda o dan ddiogelwch y Taliban. | **Gweithgareddau:**<br>• gwyliwch a dadansoddwch ddarn o raglen ddogfen am rôl bin Laden yn y Mujahideen a'r ffaith iddo ddychwelyd i Afghanistan yn 1996<br>• trafodaeth grŵp: Trafodwch bwysigrwydd strategol y berthynas rhwng bin Laden a'r Taliban er mwyn ehangu Al-Qaeda.<br><br>**Canlyniadau:**<br>Bydd dysgwyr yn gwybod am y rhan a chwaraeodd Osama bin Laden yn y Mujahideen yn ystod y rhyfel rhwng y Sofietiaid ac Afghanistan.<br><br>Gall dysgwyr hefyd ystyried sut atgyfnerthodd penderfyniad bin Laden i symud i Afghanistan yn 1996 ei gydberthynas â'r Taliban a gwella cyrhaeddiad Al-Qaeda ymhellach.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Sut llywiodd y rhan a chwaraeodd Osama bin Laden ar ddechrau'r rhyfel rhwng y Sofietiaid ac Afghanistan weithrediadau Al-Qaeda yn y dyfodol? Dylid cynnwys cyfeiriadau at dactegau milwrol ac ideoleg a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn. | **Fideo(s):**<br>Bin Laden's beginnings. | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td></td><td></td><td>Canlyniad uwch:<br>Gall dysgwyr archwilio pam y dewisodd bin Laden symud canolfan Al-Qaeda o weithrediadau yn ôl i Afghanistan yn 1996 ar ôl bod yn Swdan.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">2.6.4 Al-Qaeda yn targedu Unol Daleithiau America fel canolbwynt grym y Gorllewin</td></tr>
<tr><td>Dylai dysgwyr ddeall:</td><td>Gwybodaeth</td><td>Gweithgareddau a Chanlyniadau</td><td>Adnoddau</td><td>Amser a awgrymir (oriau)</td></tr>
<tr><td><ul><li>y nifer cynyddol o ymosodiadau ar gyfleusterau a buddiannau milwrol yr Unol Daleithiau, gan gynnwys:<ul><li>bomio Canolfan Masnach y Byd yn 1993, a llysgenadaethau yr Unol Daleithiau yn Dar es Salaam a Nairobi yn 1998</li><li>bomio USS Cole yn Aden yn 2000.</li></ul></li></ul></td><td>Gwybod am yr ymosodiadau terfysgol a gyflawnwyd gan Al-Qaeda yn erbyn UDA cyn 9/11. Ymysg y rhain roedd bomio Canolfan Fasnach y Byd, bomio llysgenadaethau UDA yn Affrica a bomio USS Cole, yr oedd pob un yn arwydd o fygythiad cynyddol Al-Qaeda i fuddiannau UDA.</td><td>Gweithgareddau:<ul><li>bydd dysgwyr yn creu llinell amser o'r tri phrif ymosodiad (Canolfan Fasnach y Byd yn 1993, bomio'r llysgenhadaethau yn 1998 ac USS Cole yn 2000) ac yn dadansoddi'r ymateb byd-eang i bob un</li><li>bydd dysgwyr yn creu erthygl papur newydd ffug yn sôn am un o'r ymosodiadau, gan ganolbwyntio ar y rhesymau y tu ôl iddo a'i oblygiadau.</li></ul>Canlyniad:<br>Mae dysgwyr yn ymwybodol o'r prif ymosodiadau a gyflawnwyd gan Al-Qaeda yn yr 1990au a'u harwyddocâd i bolisi tramor UDA.<br><br>Gallant hefyd ystyried y patrwm o drais cynyddol gan Al-Qaeda tuag at dargedau Americanaidd dramor.<br><br>Gweithgareddau uwch:</td><td>Fideo(s):<br>The Power of Nightmares - BBC<br><br>Podlediad(au):<br>The Rest is History - 9/11</td><td>2 awr</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymharwch ymosodiadau Al-Qaeda ar fuddiannau UDA ag ymosodiadau tebyg gan grwpiau eraill (e.e. Hezbollah). Gwerthuswch y gwahaniaethau mewn ideoleg, dulliau ac ymatebion gan lywodraeth UDA.<br><br>Ymchwiliwch i sut arweiniodd pob un o'r ymosodiadau hyn at newidiadau ym mholisi tramor UDA a sut mae hyn yn dechrau dylanwadu ar ganfyddiadau hiliol yn UDA.<br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn cael dealltwriaeth ddyfnach o oblygiadau domestig yr ymosodiadau hyn. | | |
| • yr ymosodiadau ar Ganolfan Masnach y Byd a'r Pentagon ar 9/11, gan gynnwys:<br>  • arwyddocâd y targedau<br>  • data ystadegol ar gyfraddau marwolaethau ac anafiadau, ac arwyddocâd adroddiadau o brofiad personol. | Dylai dysgwyr ddeall maint llawn ymosodiadau 9/11, gan gynnwys y broses symbolaidd o dargedu UDA fel pŵer mawr byd-eang. Dylent hefyd gydnabod y gost ddynol, gan ddefnyddio cyfrifon personol a data ystadegol i ddeall difrifoldeb y digwyddiad. | **Gweithgareddau:**<br>• gwyliwch ddarnau o raglenni dogfen am 9/11, gan ganolbwyntio ar dystiolaeth bersonol gan oroeswyr ac ymatebwyr cyntaf<br>• gofynnwch i'r dysgwyr ddadansoddi data ystadegol o ymosodiadau 9/11 i ddeall maint y golled a'r difrod.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn cydnabod arwyddocâd targedu Canolfan Fasnach y Byd (canolfan ariannol) a'r Pentagon (canolfan filwrol).<br><br>Byddant hefyd yn ymwybodol o'r ystadegau marwolaeth ac anafiadau, a'r | **Fideo(s):**<br>Inside 9/11 - National Geographic | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | modd y mae cyfrifon personol yn adlewyrchu effaith ehangach yr ymosodiadau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwerthuswch arwyddocâd symbolaidd ymosodiadau 9/11 ar bŵer economaidd a milwrol UDA. Defnyddiwch dystiolaeth ystadegol a chyfrifon personol i gefnogi eich dadansoddiad. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • | | **Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn deall symbolaeth y targedau: Pam wnaeth Al-Qaeda ddewis Canolfan Fasnach y Byd a'r Pentagon a beth oedd y rhain yn ei gynrychioli i UDA ac i Al-Qaeda? | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.6.5 Y "Rhyfel Byd-eang ar Derfysgaeth” | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • yr ymateb i 9/11, gan gynnwys:<br>• Ymgyrch Rhyddid Parhaus (*Operation Enduring Freedom*), 7 Hydref 2001<br>• cynrychioliad yn y cyfryngau a'r effaith ar ganfyddiadau hiliol yn UDA. | Ar ôl ymosodiadau 9/11, lansiodd UDA yr Ymgyrch Rhyddid Parhaus (*Operation Enduring Freedom*) ar 7 Hydref 2001, yn targedu Al-Qaeda a'r Taliban yn Afghanistan. Arweiniodd ymateb UDA at newidiadau sylweddol i'r polisi tramor ac at wrthdaro estynedig. Arweiniodd cynrychioliad yn y cyfryngau ar ôl 9/11 at gynnydd mewn proffilio hiliol ac Islamoffobia yn UDA, gan effeithio ar ganfyddiadau'r cyhoedd o Fwslimiaid a chyfrannu at bolisïau domestig fel mwy o oruchwyliaeth. | **Gweithgareddau:**<br>• trafodaeth dosbarth ar ddigwyddiadau 9/11, gan gynnwys canlyniadau geowleidyddol<br>• dadansoddiad o ffynhonnell: archwilio adroddiadau yn y cyfryngau rhwng 2001 a'r presennol<br>• cyflwyniadau grŵp ar sut newidiodd canfyddiadau hiliol yn UDA ar ôl 9/11.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall achosion ymosodiadau 9/11 a'r cyfnod yn union wedyn.<br><br>Gall dysgwyr ystyried Ymgyrch Rhyddid Parhaus, a ddechreuodd ar 7 Hydref 2001 ac a oedd yn targedu Al-Qaeda a'r Taliban yn Afghanistan.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Edrychwch ar rôl cynrychioliad yn y cyfryngau ar y broses o lywio canfyddiadau'r cyhoedd o hil ac Islam yn UDA ar ôl 9/11.<br><br>Cyflwynwch ddadl ar oblygiadau moesegol tactegau gwrthderfysgaeth UDA. | **Gwefan(nau):**<br>9/11 and After - New York Times<br><br>Resources from the 9/11 Memorial Museum<br><br>**Fideo(s):**<br>9/11: George Bush breaks down his very public initial reaction - BBC | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Bydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth fanwl o'r newidiadau ym mholisi tramor UDA ar ôl 9/11 a'r ymatebion byd-eang i derfysgaeth yn y cyfnod ar ôl yr ymosodiadau. | | |
| • Afghanistan yn 2001, gan gynnwys:<br>  • cyfundrefn y Taliban<br>  • Bin Laden yn dianc i Pakistan. | Yn 2001, y Taliban oedd yn rheoli Afghanistan, gan orfodi cyfraith Islamaidd lem a llochesu Al-Qaeda. Chwalodd ymosodiad UDA gyfundrefn y Taliban yn gyflym, ond llwyddodd Osama bin Laden i ffoi i Pakistan, gan estyn y cyfnod o wrthdaro. Cafodd y berthynas rhwng UDA a Pakistan ei chymhlethu gan amheuon na chafodd cefnogaeth gudd tuag at elfennau'r Taliban a bin Laden eu nodi tan 2011. | **Gweithgareddau:**<br>• llunio llinell amser o hanes Afghanistan rhwng 1990 a 2001<br>• ymchwil grŵp ar esgyniad y Taliban<br>• dadansoddi ffynonellau dogfennau sylfaenol fel datrysiadau'r C.U. mewn perthynas ag Afghanistan.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd y dysgwyr yn deall trosolwg o sefyllfa wleidyddol Afghanistan yn 2001, gan ganolbwyntio ar gyfundrefn y Taliban. Dylent ystyried penderfyniad UDA i ymosod ar Afghanistan.<br><br>Byddant yn deall goblygiadau geowleidyddol y ffaith bod Osama bin Laden wedi ffoi i Bacistan.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwyniad ar y modd yr esblygodd polisi tramor UDA tuag at Afghanistan ar ôl 2001.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn deall y dadansoddiad o berthynas UDA a Pakistan yn ystod y Rhyfel ar Derfysgaeth. | **Fideo(s):**<br>How the CIA Found Osama bin Laden<br><br>Adroddiad Newyddion: George W. Bush yn cyhoeddi rhyfel Afghanistan | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd dysgwyr yn gwybod am rwydwaith bin Laden a dylanwad Al-Qaeda yn y rhanbarth. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy gyrchu deunydd ffynhonnell hanesyddol yn ddigidol | Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael mynediad i archifau ar-lein o bob cwr o'r byd. Bydd hyn yn eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth o ddeunyddiau ffynhonnell hanesyddol fel llythyrau, dyddiaduron neu ddogfennau'r llywodraeth.<br><br>Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio technoleg ddigidol i ymchwilio i'r testun i'w astudio ac i feithrin eu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol ymhellach.<br><br>Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i gyflawni eu hymchwiliad hanesyddol yn ddigidol, fel rhan o'r asesiad ar gyfer yr uned hon. |
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Gall dysgwyr ymweld â chofeb 9/11 gan ddefnyddio'r daith rithiol. |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Bydd astudio'r ymosodiad terfysgol ar 9/11 yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu drwy empathi a thosturi. Gan ystyried tensiynau hiliol ar ôl 9/11, gall dysgwyr arfer goddefgarwch ac empathi. |
| Gweithio ar y cyd | Drwy'r cwrs hwn, caiff dysgwyr eu hannog i gymryd rhan mewn dadleuon ac i wneud cyflwyniadau i'r dosbarth mewn grwpiau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru
### Uned 2 Opsiwn 2.6 Modern – Afghanistan, tua 1979 – tua 2001

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i astudio rhanbarth sydd wedi dominyddu materion diogelwch rhyngwladol a gwrthderfysgaeth. Bu'n ffocws i gymorth dyngarol ac ymgysylltu diplomyddol ac mae ymgais barhaus i hyrwyddo sefydlogrwydd rhanbarthol o ystyried arwyddocâd strategol Afghanistan. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Gall dysgwyr ystyried goddefgarwch a gwahaniaethu crefyddol wrth ddysgu am y cyfnod ar ôl ymosodiadau 9/11. Gallant fynd i'r afael â thystiolaeth bersonol wrth wrando ar ddioddefwyr 9/11 neu ddarllen amdanynt. Mae cyfleoedd i'w cael i ddysgwyr fynd i'r afael â hanes Canolbarth neu Ddwyrain Asia. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Gall dysgwyr ystyried profiadau cymunedau Mwslimaidd ar ôl 9/11, gan gydnabod y llif hiliol a wynebodd llawer o gymunedau yn annheg oherwydd hyn. Gallant ystyried hyn wrth ystyried y cyfnod ar ôl 9/11. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad maen nhw'n ei roi o ddigwyddiadau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>**Enghreifftiau** |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Byddant yn cael cyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.<br><br>**Enghraifft**<br><br>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.<br><br>**Enghraifft**<br><br>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| Cynhyrchu | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol a byddant yn meithrin sgiliau digidol wrth greu asesiadau di-arholiad mewn fformat digidol.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio.<br>• Cwblhau'r asesiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br>**Enghreifftiau**<br>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.<br>**Enghreifftiau**<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | **Enghraifft**<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br>**Enghreifftiau**<br>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.6
Modern: Afghanistan, tua 1979–tua 2001

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Rhyfel Cartref | Cyfnod o frwydro dwys rhwng carfanau amrywiol yn Afghanistan ar ôl cwymp y llywodraeth a gefnogwyd gan y Sofietiaid, gan arwain at ddinistr eang. |
| Y Rhyfel Oer | Y tensiwn geowleidyddol byd-eang rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r Unol Daleithiau rhwng 1947 ac 1991. Aeth Afghanistan yn faes y gad allweddol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd ei lleoliad strategol. |
| Cytundebau Genefa | Cytundeb rhyngwladol a arweiniodd at dynnu lluoedd Sofietaidd o Afghanistan, y Cenhedloedd Unedig oedd y brocer a llofnodwyd y cytundeb gan Afghanistan, Pakistan, UDA a'r Undeb Sofietaidd. |
| Jihad | Yng nghyd-destun Afghanistan, mae hyn yn cyfeirio at y 'rhyfel sanctaidd' a gyhoeddwyd gan y Mujahideen a grwpiau Islamaidd yn erbyn y lluoedd Sofietaidd ac yn ddiweddarach yn erbyn gwrthwynebwyr mewnol. |
| Mujahideen | Ymladdwyr gerila Afghanaidd a oedd yn gwrthwynebu meddiannaeth y Sofietiaid ac a ymladdodd yn Rhyfel Cartref Afghanistan yn ddiweddarach. Cawsant gefnogaeth gan UDA, Pakistan a gwledydd eraill. |
| Cynghrair y Gogledd | Clymblaid o garfanau sy'n gwrthwynebu'r Taliban (*anti-Taliban*), a oedd yn cynnwys yn bennaf leiafrifoedd ethnig fel pobl Tajik, Uzbek a Hazara. Buont yn ymladd y Taliban rhwng 1996 ac ymosodiad UDA yn 2001. |
| Ymgyrch Cyclone | Rhaglen gudd gan y CIA a roddodd gefnogaeth ariannol a milwrol i'r Mujahideen yn ystod y rhyfel rhwng y Sofietiaid ac Afghanistan. |
| Osama bin Laden | Arweinydd mudiad terfysgol Al-Qaeda, a gafodd loches gan y Taliban yn Afghanistan. Arweiniodd y rôl a chwaraeodd yn ymosodiadau 9/11 at ymosodiad UDA ar Afghanistan yn 2001. |
| Cyfraith Sharia | System gyfreithiol Islamaidd yn seiliedig ar y Quran a Hadith. Roedd y Taliban yn gweithredu dehongliad llym o gyfraith Sharia yn ystod eu rheolaeth, gan arwain at achosion eang o dorri hawliau dynol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Ymosodiad y Sofietiaid | Yr ymyriad milwrol gan yr Undeb Sofietaidd yn Afghanistan i gefnogi'r llywodraeth gomiwnyddol yn erbyn grwpiau gwrthryfelgar, gan arwain at ddegawd o wrthdaro. |
| Taliban | Grŵp milwrol Islamaidd a ymddangosodd yng nghanol yr 1990au, gan gipio pŵer yn Afghanistan yn 1996. Roeddent yn gweithredu cyfraith Sharia lem ac yn rheoli hyd at y goresgyniad dan arweiniad UDA yn 2001. |
| Y goresgyniad dan arweiniad UDA | Y gweithrediad milwrol a lansiwyd gan yr Unol Daleithiau a'i chynghreiriaid mewn ymateb i ymosodiadau 9/11, wedi'i anelu at chwalu cyfundrefn y Taliban a chael gwared ar Al-Qaeda o Afghanistan. |
| Ymosodiadau 9/11 | Ymosodiadau terfysgol a gydlynwyd gan Al-Qaeda ar yr Unol Daleithiau ar 11 Medi, 2001. Arweiniodd yr ymosodiadau at benderfyniad UDA i ymosod ar Afghanistan i chwalu Al-Qaeda a thaflu'r Taliban allan. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025